

Cofion

Anfonwn ein cofion yr wythnos hon at Trefor Wynne (Henllan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Cyflwynwn ef a'r teulu i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn profi trugaredd a daioni Duw y dyddiau hyn. Disgwyliwn y bydd Morfudd Williams (Henllan) wedi symud i Tŷ Cariad, Abergele y penwythnos hwn. Parhawn i gofio amdani hithau yn ein gweddïau a dymunwn Dduw yn rhwydd wrth iddi setlo yno. Cofiw'n hefyd am eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd a'r rhai sy'n dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Cyflwynwn bob un o'r cleifion a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd, gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrando'n gweddïau, ac am addewid O'i ffyddlondeb.

beibl.net mewn print bras

Erbyn Tachwedd 25ain eleni, bydd posib cael beibl.net mewn print bras. Pris y Beibl hwn fydd £24.99, ond gellir cael gostyngiad am bob archeb fydd wedi dod i law cyn hynny. Felly, os am archebu copi **am £20 yr un**, gadewch i Mair wybod **erbyn Tachwedd 21ain**, os gwelwch yn dda. Maint y llyfr yw 165 x 232 x 64 mm (*sydd tua'r un maint â Caneuon Ffydd –argraffiad organ*). Os ydych eisoes wedi prynu yr un llai o faint i'w ddefnyddio yn y pulpud neu'r sêd fawr, gadewch i Mair wybod ac fe allwn wneud defnydd ohono yng ngweithgarwch yr Ofalaeth, fel y medrwch chithau gael copi brasach ar gyfer defnydd cyhoeddus yn y capel.



Pecyn Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

I arbed costau postio, cofiwch bod angen i chi archebu'r taflenni a'r posteri ar gyfer Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd 2017 **erbyn dechrau mis Tachwedd**, gan nodi'n glir ar y daflen y bydd rhywun o Eglwys Bro Aled yn casglu'r pecyn ar eich rhan. (A fyddwch cystal â gadael i Mair wybod hynny hefyd, os gwelwch yn dda?)

I ddod

- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghanolfan Ebenezer, Caernarfon dydd Mercher, Tachwedd 9fed o 10.00 – 3.00.
- **GOFAL BUGEILIO GYDA HENOED, AC EFO BOBL SY'N WYNEBU DIWEDD OES** – Hyfforddiant gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru yng Ngholeg y Bala, dydd Iau, Rhagfyr 1af o 10.30 – 3.00 i weinidogion, ymgeiswyr ac eraill sy'n ymweld â chleifion. Mae'r hyfforddiant, fydd trwy gyfrwng y Saesneg, am ddim. Fe ddarperir cinio, ond rhaid archebu lle ymlaen llaw. Rhowch eich enw i Mair erbyn Tachwedd 18fed os oes gennych ddiddordeb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30^{ain} Hydref 2016

Darlleniad y Dydd

Josua 24: 24-28

(BCND tud.220 / BCN tud.200)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Wrth i fis Hydref ddod i'w derfyn, a thywyllwch y gaeaf ddod yn nes, diolchwn heddiw fod ein Harglwydd a'n Gwardwr Iesu Grist hefyd yn oleuni'r byd. Yn sgil hynny, gallwn lawenhau hyd yn oed mewn sefyllfaoedd anodd gan fod etifeddiaeth dragwyddol yn y goleuni yn ddiogel i'r rhai sy'n ei ganlyn Ef. (Ioan 8:12 a Colosiaid 1:12)

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'r oedfaon ym Mro Aled heddiw, a chofiwch ddau beth pwysig dros y Sul : 1) bod angen troi'r clociau yn ôl; a 2) y bydd Oedfa'r Fro ar daith heno yng Nghefn Berain lle byddwn yn canolbwyntio ar hanes yr ysbïwyr yn ymweld â gwlad yr addewid. Edrychwn ymlaen felly yn weddigar at gael ceisio'r Arglwydd a'i foli gyda'n gilydd.

Pan fyddwn yn nesáu at ddiwedd 2016, dwi'n siŵr y bydd peth wmbreth o raglenni teledu yn cael eu darlledu yn ceisio crynhoi popeth o bwys a ddigwyddodd dros y flwyddyn aeth heibio. O'r byd chwaraeon i wleidyddiaeth a materion tramor, mae'r rhaglenni hyn yn gyson yn peri syndod i mi oherwydd cymaint o bethau sy'n gallu digwydd mewn cwta 12 mis, a chymaint ohonynt sy'n mynd yn angof ymhen dim. Yn aml, gall cael ein hatgoffa fod yn hyfryd neu'n annymunol yn dibynnu ar beth yw natur yr atgofion hynny, ond yn y Beibl gwelwn bwyslais mawr ar gofio (ac atgoffa'n gilydd) pwy yw'r Arglwydd a'r hyn y mae wedi ei wneud dros ei bobl.

Wrth i ni droi at bennod 24 o Lyfr Josua ar gyfer ein darlleniad ar y cyd heddiw, gwelwn Josua yn arwain pobl Dduw gan roi siars iddynt i daflu duwiau estron allan o'u bywydau a throi eu calonnau at yr Arglwydd. Adnewyddu'r cyfamod sy'n digwydd yma ac mae'r lleoliad a'r weithred yn bwysig. Digwyddodd hyn yn Sichem – lle arbennig i'r Israeliaid oherwydd mai dyma'r man y gwnaeth yr Arglwydd addewid i Abraham a'i had y byddent yn etifeddu'r tir – gwlad yr addewid (gw. Genesis 12:6-7). Mae Josua felly trwy'r gyfraith yn atgoffa'r bobl o fawredd a sancteiddrwydd Duw, ac yn y weithred o osod carreg fawr mae'n tanlinellu'r ffaith bod yr Arglwydd wastad yn cadw at ei addewidion, gan fod y maen yn dystiolaeth o eiriau'r Arglwydd rhag ofn i'r bobl anghofio.

Beth sydd gan hyn i'w wneud â ni? Mae'r un duedd o lithro i anghofio pwy yw'r Arglwydd a'r hyn y mae wedi ei wneud yn gallu dod i'n rhan ninnau hefyd. Ond diolchwn fod Gair Duw yn ein hatgoffa: 'Cofia Iesu Grist: ei gyfodi oddi wrth y meirw, ei eni o linach Dafydd...' (2 Tim. 2:8) Ac wrth gofio, rydym i ymateb hefyd i'r Arglwydd ffyddlon trwy edifarhau (troi oddi wrth bechod ac eilunaddoliaeth) ac ymddiried yn llwyr yn yr Un a roddodd Ei gorff i'w dorri a'i waed i'w dywallt 'er eich mwyn chwi'. (1 Cor. 11:24)

Darlleniad Wythnos Nesaf

Rhufeiniaid 15:1-6 (BCND tud.178 / BCN tud.163)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 30^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yng Nghefn Berain. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 1^{af}
lau – 3^{ydd} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuencid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan o 7.30 - 9.00.
- **Adnoddau a Syniadau at y Sul** yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00 – noson i'n hysbrydoli i fwrw ati i drefnu ac arwain gwasanaethau yn ein heglwys leol yng nghwmni'r Parch. Euros Wyn Jones (Coleg yr Annibynwyr), y Parch. Aled Davies (Cyhoeddiadau'r Gair) a'r Parch. Casi Jones (Swyddog Cefnogi Eglwysi). Bydd yno hefyd adnoddau arwain addoliad Cyhoeddiadau'r Gair i'w gweld a'u prynu. Croeso i bawb.
- Gwener – 4^{ydd} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 5^{ed} ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ o 10.00-3.00. Y darlithwyr fydd y Parch. David Ollerton, y Parch. John Derek Rees a Dr Andras Iago.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Cyfarfod Gweddi yno am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yno **am 2.00.** (Sylwch ar y newid amser.)
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, a bydd yr Ysgol Sul yn cydreded â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Sul nesaf – 6^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.